

Adeiladu gwerth cymdeithasol i mewn i werthuso economaidd a blaenoriaethu ym maes iechyd y cyhoedd



Dau gwrs un diwrnod
The Queen Hotel, Caer

Dydd Mawrth 17 & Dydd Mercher 18 Mawrth 2020



CYFARWYDDWR Y CYRSIAU: Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards

PRIF DDARLITHYDD 17 MAWRTH: Dr Nathan Bray

PRIF DDARLITHYDD 18 MAWRTH: Dr Carys Jones

CYFADRAN Y CYRSIAU Dr Nathan Bray; Dr Jo Charles; Dr Victory Ezeofor; Dr Ned Hartfiel, Dr Carys Jones; Dr Mary Lynch; Dr Llinos Haf Spencer, Eira Winrow, a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards o CHEME, Prifysgol Bangor, a'r Athro Rob Atenstaedt o Iechyd Cyhoeddus Cymru.



AR GYFER PWY MAE'R CYRSIAU? Mae'r ddau gwrs un diwrnod cysylltiedig hyn yn berthnasol i bobl sy'n cynhyrchu neu'n defnyddio tystiolaeth i ddylanwadu ar iechyd a lles y boblogaeth. Yn benodol, y rhai sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol, iechyd y cyhoedd, y trydydd sector, sefydliadau addysg uwch, gan gynnwys unedau ymchwil economeg iechyd, a sefydliadau cysylltiedig.



17 Mawrth - Gwerthusiad economaidd o ymyriadau iechyd cyhoeddus a'r defnydd o ddulliau blaenoriaethu ym maes iechyd y cyhoedd:

Dulliau ar gyfer gwerthuso ymyriadau iechyd cyhoeddus, gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar gyfer comisiynu neu ddad-gomisiynu gwasanaethau o'r fath o adnoddau cyfyngedig. Mae'n addas ar gyfer economegwyr iechyd sy'n ceisio gwella eu gwybodaeth a phobl sy'n gweithio ym maes iechyd y cyhoedd sy'n gyfrifol am gyllidebau a blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cael effaith ar iechyd a lles.

18 Mawrth - Gwerth cymdeithasol a presgripsiwn cymdeithasol: Mesur a defnyddio gwerth cymdeithasol wrth gomisiynu a gwerthuso gwasanaethau, gan gynnwys presgripsiwn cymdeithasol. Yn addas ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y cysyniad ehangach hwn o werth a budd.

Cost am y ddau ddiwrnod: £495

Cost am un diwrnod: £295

Mae'r pris yn cynnwys yr holl ddeunyddiau cwrs*, cinio a lluniaeth (llety heb ei gynnwys).

* Bydd cynrychiolwyr yn derbyn copi o'r llyfr: Edwards, R.T. a McIntosh, E. Gol., 2019. *Applied health economics for public health practice and research*. Oxford University Press

Bydd cofrestru yn cau Dydd Mawrth 18 Chwefror 2020

(Ffi canslo 50% cyn 18 Chwefror 2020, 100% ar ôl y dyddiad hwn)

Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Ann Lawton E-bost: cheme@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382153